# Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018

**2018 dccc 3**

*Cydsyniad Gweinidogion Cymru i is-ddeddfwriaeth sydd o fewn cwmpas cyfraith yr UE*

## 14 Cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth

(1) Cyn gwneud is-ddeddfwriaeth sy'n cynnwys darpariaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi, rhaid i un o Weinidogion y Goron, neu unrhyw berson arall (ac eithrio Gweinidogion Cymru) y mae'r swyddogaeth o wneud y ddeddfwriaeth wedi ei rhoi iddo, gael cydsyniad Gweinidogion Cymru.

(2) Mae'r adran hon yn gymwys i ddarpariaeth os yw—

(a) amodau 1, 2 a 3 wedi eu bodloni, a

(b) amod 4 neu 5 wedi ei fodloni.

(3) Amod 1 yw bod y ddarpariaeth yn gymwys o ran Cymru (pa un a yw'r ddarpariaeth yn rhychwantu tiriogaethau eraill neu'n gymwys iddynt ai peidio) ac o fewn cymhwysedd datganoledig.

(4) Amod 2 yw bod y ddarpariaeth yn dod, neu y byddai wedi dod, o fewn cwmpas cyfraith yr UE fel y mae'n cael effaith ar y diwrnod y daw'r adran hon i rym.

(5) Amod 3 yw bod y ddarpariaeth i'w gwneud o dan swyddogaeth a arferir drwy offeryn statudol.

(6) Amod 4 yw bod y ddarpariaeth i'w gwneud o dan swyddogaeth a roddir gan neu o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig a ddeddfir ar ôl y diwrnod y daw'r adran hon i rym.

(7) Amod 5 yw—

(a) bod y ddarpariaeth i'w gwneud o dan swyddogaeth a addesir gan neu o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig a ddeddfir ar ôl y diwrnod y daw'r adran hon i rym,

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 07/06/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018, Adran 14. (See end of Document for details)*

(b) bod y swyddogaeth a grybwyllir ym mharagraff (a) wedi ei haddasu gan y Ddeddf mewn ffordd sy'n galluogi, neu'n ei gwneud yn ofynnol, i ddarpariaeth gael ei gwneud na ellid ei gwneud yn flaenorol, ac

(c) na ellid bod wedi gwneud y ddarpariaeth cyn i'r swyddogaeth gael ei haddasu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 14 mewn grym ar 7.6.2018, gweler **a. 21**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 07/06/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018, Adran 14.